Dr David Lankshear

Cefndir

Mae David Lankshear yn Arweinydd Rhaglenni ar gyfer y rhaglen Meistr mewn astudiaeth o addysg grefyddol ac ysgolion eglwysig, yn ogystal â chyflwynydd Lefel 1 mewn Addysg ar gyfer Bod yn Ddisgybl a Gweinidogaeth Plant a wiriwyd gan Brifysgol York St John. Mae hefyd yn Ymchwilydd Cynorthwyol yn uned Crefydd ac Addysg Warwick, Prifysgol Warwick.

Enillodd David Dystysgrif Athro yn *Bishop Otter College* ym 1965. Daeth yn *Licentiate, College of Preceptors* ym 1977. Ym 1992 dyfarnwyd MPhil iddo o Brifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan lle'r enillodd ei ddoethuriaeth ym 2001. Yn ogystal, dyfarnwyd cymrodoriaeth iddo yn y *College of Preceptors* ym 1994 ar sail ei gyhoeddiadau.

Bu David yn athro mewn ysgolion cynradd yn Llundain cyn ei benodi'n warden Canolfan Athrawon Haringey ym 1970. Ym 1975 penodwyd ef yn bennaeth Ysgol St Katherine, Swydd Essex – Ysgol Eglwys Loegr wedi ei Chynorthwyo ac ym 1980 yn Ymgynghorydd Ysgolion yn Esgobaeth Chelmsford. Ym 1988 daeth yn Gyfarwyddwr Addysg Esgobaeth Caer ac ym 1991 yn Swyddog Ysgolion Bwrdd Addysg Eglwys Loegr a Dirprwy Ysgrifennydd Cyffredinol y Gymdeithas Genedlaethol. Ymddeolodd o'r swyddi hyn ym 2003 ac ers hynny bu'n Gyfarwyddwr Astudiaethau yn y Ganolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol, ac yn gweithio fel Ymgynghorydd ar ei liwt ei hun.

Mae David yn aelod o nifer o sefydliadau gan gynnwys:

- Comisiwn Rhyng-Ewropeaidd ar Eglwys ac Ysgol
- Seminar Ryngwladol ar Addysg Grefyddol a Gwerthoedd
- Cymdeithas Ryngwladol ar Ymchwil Empeiriaidd mewn Diwinyddiaeth
- Rhwydwaith Ethos ac Addysg
- Grŵp Adolygu'r Eglwys yng Nghymru
- Ymddiriedolaeth Ryngwladol Myfyrwyr St Pierre de Thaon

Ef yw Cadeirydd llywodraethwyr Ysgol Uwchradd St Peter, Chelmsford – Ysgol Wirfoddol Eglwys Loegr wedi ei Chynorthwyo.

Ymchwil

O safbwynt ei ddiddordebau ymchwil, mae David ar hyn o bryd, yn ymwneud ag astudiaeth o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru, Gwerthoedd Pobl Ifanc yn eu Harddegau a Galwedigaeth Gristnogol i Addysgu. Mae'r cyfan yn adlewyrchu ei brif ffocws ar addysgu plant a phobl ifanc mewn eglwysi ac ysgolion ag iddynt nodweddion crefyddol. Mae cyhoeddiadau diweddar David yn cynnwys:

Kuyk, E, Jensen, R, Lankshear D.W, Leoh Manna, E. & Schreiner, P. (2007) Religious Education in Europe, Oslo, IKO & ICCS

Lankshear D.W. Arbeit mit Kindern in England in Spenn, M., Beneke, D. Harz, F & Schweitzer, F. (eds.) (2007) Handbuch Arbeit mit Kindern – Evangelische Perspektiven, Gutersloh, Gutersloh Verlagshaus pp513-517

Lankshear D.W. The influence of Anglican secondary schools on personal, moral and religious values in Francis, L.J., Robbins, R and Astley, J. (eds) (2005) Religion Education and Adolescence – International Empirical Perspectives, Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru, pp55-69

Lankshear, D.W. (2005) 'Keep the change': the challenge of trade versus charity in The Development Education Journal, 12(1), 30-31

Lankshear D.W (2004) Is the rural church different? The special case of confirmation, Rural Theology, 2(2), 105-117

Spinder, H, Beorsma, P, Haussmann, W, Politt, H. Miedema, S, Lankshear D.W. Stevenson, J & Wood K. (2003) 'Giving Europe a heart and Soul' A Christian vision for education in Europe's schools, Munster, ICCS

Lankshear, D.W. & J.R. Hall (2003) Governing and Managing Church Schools (2il argraffiad) Llundain, The National Society